**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun y 13eg o Fawrth 2023 yng Nghanolfan Deunant**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Williams, RJ Williams, Cyng Gareth Williams (Cynghorydd Sir)
**Yn y gadair:** Cyng Wenda Williams
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u>** : Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Nesta Roberts, Tim Rosa, Gwenllian Hughes Jones, Jaci Jones, a Dafydd Myrddin. Datganodd y Cyng Wenda Williams ddiddordeb yn eitem 7iii)
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:</u>** Cydymdeimlwyd gyda'r Cyng Nesta Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Chwefror 2023</u>**
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
Derbyniwyd atebion fel a ganlyn gan Alun Roberts, y Peiriannydd Ardal:
**Graeanu:** Bydd y cylchdeithiau yn cael eu hadolygu cyn y gaeaf nesaf.
**Arwyddion mwd ar y lôn:** Bydd yr arwyddion yn cael eu symud
**Arwydd 'dim loriau' yn Rhoshirwaun:** Mae y Cyng RJ Williams am ddangos ble mae angen yr arwyddion i'r swyddog.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd**: Mae dyddiad cyhoeddi pa geisiadau sydd yn cael cynnig i gyflwyno cais llawn i Cadw wedi symud i'r 31ain Mawrth. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gyda Caryl Lewis a Matt Osmont yn dilyn y cyhoeddiad.
Bu trafodaeth am y cais i'r cwmni yswyriant, a bod brys gan fod y cwmni yn dal i aros am brisiau. Penderfynwyd gofyn i Derwen Llŷn am bris trwsio'r to a gofyn i'r cwmniau sydd eisioes wedi prisio ddiweddaru eu prisiau.
**iii)Clwb Ieuenctid:** Nid oes dim pellach i'w adrodd.
**iv)Hysbysfyrddau:** Dylai yr hysbysfyrddau gyrraedd dechrau mis Ebrill, mae 3 pris wedi ei dderbyn ar gyfer gosod un yn Aberdaron, prisiau gan William John Jones, Pant y Dŵr, Rhydlios a Llifon Jones, Llys Hyfryd , Y Rhiw ydi yr isaf (£180), mae Llifon Jones wedi datgan nad oes ganddo amser i wneud y gwaith. Gofynwyd i WiJ Jones wneud y gwaith.
**v)Cyfarfod gyda'r Adran Forwrol:** Penderfynwyd gofyn os ydi y swyddog ar gael i gyfarfod ar y 31ain o Fawrth.
**vi)Cae chwarae:** Nid oedd y Cyng Gwenllian Hughes Jones yn bresennol yn y cyfarfod felly ni dderbyniwyd adroddiad ar y cae chwarae. Bydd angen trafod yr adroddiad iechyd a diogelwch yn y cyfarfod nesaf.
**5) <u>Gohebiaethau</u>**
Dim wedi eu derbyn
**6) <u>Cynllunio</u>**
C23/0182/30/DT: Estyniad i'r Garej/Gweithdy/Stiwdio Ardd, Y Groesffordd, Rhiw - nid oedd sylwadau, heblaw yr un sylwadau ag a gyflwynwyd i'r cais diwethaf a gyflwynwyd yn Y Groesffordd.
C23/0115/30/LL:Cais llawn i newid defnydd a chynnal newidiadau mewnol i sied amaethyddol i ddefnydd cymysg gan gynnwys defnydd amaethyddol a defnydd ynghlwm a busnes pysgota, Ty'n Y Mynydd Isaf, Rhiw, Pwllheli, Gwynedd - dim gwrthywnebiad
C23/0061/30/LL: Cais ar gyfer codi adeilad cadw tail gyda thanc tanddaearol a chysylltiad iddo i ddal unrhyw hylif, Bryn Gwynt, Anelog - dim gwrthwynebiad
**7)Apeliadau ariannol**
Gwnaed y cyfraniadau isod o dan bwerau Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:
i)Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023: £250
ii)Cylch Meithrin Aberdaron: £500
iii)Côr Cantorion Llŷn: Nid oedd digon aelodau yn bresennol yn y cyfarfod i wneud penderfyniad gan i'r Cyng Wenda Williams ddatgan diddordeb. Penderfynwyd mewn egwyddor i roi cyfraniad ond bydd rhaid gwneud penderfyniad ffurfiol fis nesaf.
iv)Penderfynwyd cyfranu £200 yr un i Neuadd Rhoshirwaen, Neuadd Y Rhiw a Canolfan Deunant

**8)Ariannol**
**Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:
Iwan Hughes: £195.53
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/o)
Unllais Cymru: £201 (aelodaeth)
HSBC: £5.40 (ffioedd)
**Derbyniadau**
£7,971.48 (Grant AHNE)
**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**
i)Bu trafodaeth am y ddarpariaeth parcio ger Spar, Aberdaron gan fod pryder yn lleol am golli mannau parcio cyfleus. Gan fod y tir, mae'n ymddangos, yn eiddo preifat penderfynwyd na ddylai y Cyngor ymyrryd.
ii)Mae tyllau yn ffordd Bryn Llan, Rhoshirwaun.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhoshirwaun, dyddiad i'w gadarnhau.**